



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Echdoriad Mwcosaidd Endosgopig:

## Gwybodaeth i Gleifion

Mae'r driniaeth hon angen eich cydsyniad ffurfiol. Os na allwch gadw at eich apwyntiad, rhowch wybod i'r swyddfa trefnu Endosgopi cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn galluogi'r staff i roi eich apwyntiad i rywun arall a byddant yn gallu trefnu dyddiad ac amser arall i chi. Dewch â'r llyfryn hwn gyda chi pan fyddwch yn dod i'ch apwyntiad.

Mae'r llyfryn hwn wedi cael ei ysgrifennu i'ch galluogi i wneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas â chytuno i'r archwiliad ac a ydych yn dymuno i feddyginiaeth dawelyddu gael ei defnyddio. Unwaith y byddwch wedi darllen a deall yr holl wybodaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o gymhlethdodau, a'ch bod yn cytuno i gael yr archwiliad, arwyddwch a dyddiwch y ffurflen gydsynio gyda'r endosgopydd.

### **Beth yw Echdoriad Mwcosaidd Endosgopig (EMR)?**

Mae EMR yn cynnwys:

- Chwistrellu leinin y Llwybr Perfeddol (Oesoffagws, stumog, dwodenwm, neu golon) sy'n amgylchynu tyfiant neu bolyp annormal fel ei fod yn codi'r arwynebedd: ac yn caniatáu i ddolen weifren (magl) ddal y polyp/tyfiant a'i dynnu. Gelwir hyn yn polypectomi.
- Mae EMR hefyd yn cael ei ddefnyddio i gymryd sampl (biopsi) o leinin y llwybr perfeddol i'w ddadansoddi.
- Os yw cancer yn bresennol, gall EMR helpu i benderfynu a yw'r cancer wedi meddiannu meinwe o dan leinin y llwybr treulio.

Gallai'r driniaeth EMR fod yn addas ar gyfer cleifion sydd â pholypau bach (tyfiant) yn yr oesoffagws, stumog, dwodenwm, neu'r colon. Ar gyfer cleifion sydd â chanserau yn y cyfnodau cynnar neu'r rhai sydd mewn perygl o ddatblygu cancer, bydd eich cymhwysedd ar gyfer EMR yn cael ei drafod gyda thîm o arbenigwyr mewn cyfarfod Tîm Amlddisgyblaethol i benderfynu ar gynllun triniaeth a argymhellir. Yna, bydd yr opsiynau yn cael eu trafod gyda chi.


### **Yn ystod eich EMR**

Gall y driniaeth EMR gymryd yn hirach na cholonosgopi/endosgopi arferol. Gall hyn amrywio yn dibynnu ar faint a lleoliad y polyp/man annormal, a gall gymryd o ychydig o funudau hyd at awr neu fwy. Gall chwistrell tawelyddu gael ei roi i'ch helpu i ymlacio yn ystod y prawf. Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn gweld EMR yn

dderbyniol, fodd bynnag, os nad dyma'r achos, gallwch roi gwybod i'ch meddyg ymgynghorol a gellir rhoi mwy o feddyginiaeth tawelyddu, neu gellir stopio'r prawf.

Mae dull cyffredin EMR yn cynnwys y camau canlynol:

- Chwistrellu ychydig o hylif o dan y briw (ardal annormal) i greu clustog diogelwch rhwng y briw a'r meinwe iach oddi tano.
- Maglu a thorri'r briw gydag offeryn sy'n llosgi trwy'r meinwe i'w wahanu oddi wrth y meinwe iach.
- Tynnu'r meinwe annormal o'ch corff.



### **Pam yr wyf wedi cael fy nghyfeirio ar gyfer EMR?**

Yn ystod eich triniaeth flaenorol, cafwyd hyd i bolyp yn eich coluddyn. Oherwydd ei faint neu ei wastadrwydd, mae angen ei dynnu gan ddefnyddio techneg EMR, sydd fel arfer y dull hawsaf ar gyfer polypau o'r fath.

Mae'n debygol bod biopsïau eisoes wedi cael eu cymryd a'u hanfon i'w dadansoddi. Os oeddent yn rhy fach ar gyfer diagnosis, mae angen sampl mwy. Os dangosodd biopsïau blaenorol bod angen cael gwared ar y briw, bydd y samplau meinwe yn cael eu dadansoddi, ac ni fydd y canlyniadau yn cael eu rhoi ar unwaith. Gallwch drafod canlyniadau'r EMR gyda'r meddyg a'ch cyfeiriodd.

### **Dyma'r prif risgiau:**

- Trydylliad – mae hyn yn golygu gwneud twll drwy'r coluddyn. Ar gyfer EMR, mae hyn yn digwydd tua unwaith ym mhob 100 o gleifion. Yn aml, mae trydylliadau yn gwella gyda gwrthfotigau ac weithiau gellir eu trin gydag endosgôp. Fodd bynnag, weithiau mae angen llawdriniaeth frys. Fel gydag unrhyw lawdriniaeth ar y coluddyn, anaml iawn y bydd angen stoma (bag ar eich abdomen), a mesur dros dro fyddai hwn fel arfer.
- Gwaedu – mae gwaedu ysgafn yn gyffredin ar ôl EMR ond fel arfer mae'n setlo'n naturiol. Mewn un i ddau ym mhob 100 o gleifion, mae gwaedu yn fwy sylweddol ac efallai y bydd angen trallwysiad gwaed neu endosgopïau pellach. Gall ddigwydd hyd at 14 diwrnod ar ôl y driniaeth. Yn anaml iawn y mae angen endosgopi neu lawdriniaeth frys i'w stopio.
- Tyniad anghyflawn – weithiau, ni all yr endosgopydd dynnu'r holl bolyp am resymau technegol. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd echdoriad endosgopig pellach neu lawdriniaeth yn cael eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Culhau'r coluddyn mawr - gall cael gwared ar friwiau rhefrol mawr arwain at greithio sy'n culhau'r coluddyn mawr. Gall arwain at anhawster i agor y coluddyn a gall fod angen triniaeth bellach. Fel arfer, gellir trin hyn gyda

meddyginiaeth i feddalu'r carthion neu ymestyn yr ardal os oes ei angen trwy'r endosgôp (ymlediad colon a'r rhefr).

### **Paratoi o ran Bwyta ac Yfed**

Er mwyn i ni gael golwg clir yn ystod eich EMR, mae angen i'ch stumog fod yn wag.

Er mwyn i'r endosgopydd allu gweld wal y coluddyn yn glir, mae'n hanfodol bod y coluddyn yn hollol wag. Bydd y meddyg sydd wedi gofyn am y prawf wedi ystyried a yw'n ddiogel i chi gael y paratoad coluddyn.

Mae'r paratoad coluddyn sydd wedi'i anfon atoch yn gweithio fel moddion gweithio pwerus i lanhau'ch coluddyn. Bydd eich meddyginiaeth paratoad coluddyn a thaflen gyfarwyddiadau wedi cael eu hanfon atoch. Dilynwch y daflen gyfarwyddiadau yn ofalus. Mae'n hynod bwysig bod y paratoad hwn yn gweithio, gallai methu â dilyn y cyfarwyddiadau hyn arwain at driniaeth aflwyddiannus.

Cysylltwch â'r tîm nyrsio os byddwch yn profi unrhyw broblemau wrth gymryd eich paratoadau coluddyn.

Os ydych yn cymryd tabledi haearn (ferrous sulphate), stopiwch eu cymryd **7 diwrnod** cyn eich prawf.

Dylai merched sy'n cymryd y bilsen atal cenhedlu geneuol fod yn ymwybodol y gallai cymryd paratoad y coluddyn atal amsugniad o'r bilsen. Dylid cymryd rhagofalon atal cenhedlu ychwanegol tan fydd y cyfnod mislif nesaf yn dechrau.

Os ydych yn cymryd Codeine, Loperamide (Immodium) neu Co-Phenotrap (Lomotil), peidiwch â'u cymryd am **3 diwrnod** cyn eich triniaeth.

### **Meddyginiaeth Arferol**

Ffoniwch yr uned os ydych yn cymryd meddyginiaethau teneuo'r gwaed megis Warffarin, Clopidogrel, Prasugrel, Dabigatran, Rivaroxaban neu Apixaban. Ffoniwch am wybodaeth os oes gennych alergedd i latecs ac os ydych yn ddiabetig.

### **Pa mor hir y byddaf yn yr Uned Endosgopi?**

Dylech ddisgwyl bod yn yr uned am tua 2-4 awr, yn dibynnu ar ba mor brysur yw'r uned endosgopi. Fodd bynnag, mae'r uned yn gofalu am achosion brys ac weithiau gall y rhain gymryd blaenoriaeth dros restrau cleifion allanol.

### **Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn cyrraedd?**

- Ar ôl cyrraedd, bydd nyrs gymwys yn eich cyfarch ac yn gofyn am eich trefniadau o ran sut y byddwch yn cyrraedd adref. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau am y driniaeth.

- Bydd nyrs yn cynnal asesiad meddygol cryno, gan ofyn i chi am eich hanes meddygol ac am unrhyw lawdriniaethau neu salwch yn y gorffennol er mwyn sicrhau eich bod yn iawn ar gyfer y driniaeth.
- Bydd eich pwysedd gwaed a churiad eich calon yn cael eu cofnodi. Os oes gennych ddiabetes, bydd lefel eich glwcos yn y gwaed yn cael ei wirio. Os oes gennych broblemau anadlu, bydd eich lefelau ocsigen hefyd yn cael eu mesur.
- Os byddwch yn dewis cael meddyginiaeth dawelyddu, ni fyddwch yn gallu gyrru na defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar ôl y driniaeth, felly trefnwch fod rhywun yn dod i'ch nôl. Rhowch eu rhif cyswllt i'r nyrs eu ffonio pan fyddwch yn barod i fynd adref. Ceisiwch osgoi gyrru, yfed alcohol, gweithredu peiriannau neu arwyddo unrhyw ddogfennau cyfreithiol am 24 awr ar ôl y driniaeth.
- Ar ôl cael eich cydsyniad, bydd y nyrs yn mewnosod canwla bach i mewn i'ch llaw neu'ch braich ar gyfer gweinyddu'r feddyginiaeth dawelyddu yn nes ymlaen.

## **Tawelu Mewnwythiennol**

Ar gyfer y prawf hwn, byddwch yn cael meddyginiaeth dawelyddu trwy wythïen, gan eich gwneud yn gysglyd ac yn llonydd, ond ni fyddwch yn anymwybodol. Gelwir hyn yn tawelu ymwybodol, gan olygu y byddwch yn gallu dilyn cyfarwyddiadau ac anadlu'n normal. Fodd bynnag, am resymau diogelwch, bydd angen unigolyn cyfrifol arnoch i fynd â chi adref ar ôl y driniaeth.

Tra byddwch wedi cael eich tawelu, byddwn yn monitro eich anadlu, curiad eich calon a'ch pwysedd gwaed. Byddwch yn gwisgo chwiliedydd bys er mwyn gwirio eich lefelau ocsigen a churiad eich calon.

Gall effeithiau'r feddyginiaeth dawelyddu para am sawl awr. Felly, mae'n bwysig bod gennych rywun gyda chi am o leiaf 4 awr ar ôl y driniaeth. Am 24 awr ar ôl y driniaeth, peidiwch â gyrru, yfed alcohol, gweithredu peiriannau nac arwyddo unrhyw ddogfennau cyfreithiol.

## **Beth sy'n digwydd yn yr Ystafell Driniaeth?**

Pan fyddwch chi'n mynd i mewn i'r ystafell driniaeth, bydd yr Endosgopydd a'r nyrsys yn cyflwyno eu hunain. Gallwch ofyn unrhyw gwestiynau ar yr adeg hon.

Gofynnir i chi orwedd ar eich ochr chwith, a bydd nyrs yn gosod monitor ocsigen ar eich bys. Bydd meddyginiaeth dawelyddu yn cael ei rhoi a byddwch yn dod yn gysglyd yn gyflym. Bydd canwla trwynol yn darparu ocsigen ychwanegol yn ystod y driniaeth.

Efallai y bydd yn rhaid i'r endosgôp gael ei fewnosod a'i dynnu sawl gwaith. Wedi hynny, defnyddir rhwyd i gasglu samplau meinwe a gymerwyd o'r leinin.

## **Ar ôl y Driniaeth**

Byddwch yn gorffwyso ac yn cael eich monitro tan eich bod yn adfer o'r feddyginiaeth dawelyddu, sydd fel arfer yn cymryd rhwng 45-60 munud. Cyn i chi adael, bydd nyrs neu feddyg yn esbonio'r canfyddiadau ac yn rhoi manylion am unrhyw feddyginiaethau, profion dilynol neu apwyntiadau sydd eu hangen.

Oherwydd y gall meddyginiaeth dawelyddu eich gwneud yn anghofus, mae cael aelod o'r teulu neu ffrind gyda chi o gymorth pan fyddwch yn derbyn y wybodaeth hon. Byddwch hefyd yn cael adroddiad endosgopi wedi'i argraffu.

Os byddwch yn chwydu neu'n profi poen ddifrifol yn y frest, y gwddf neu'r abdomen, cysylltwch â'r uned Endosgopi neu'r tîm y tu allan i oriau neu ffoniwch 111.

### **Pryd y byddaf yn cael y canlyniadau?**

Pan fydd canlyniadau'r samplau wedi cael eu dadansoddi, efallai y bydd Nyrs Glinigol Arbenigol yn cysylltu â chi, a/neu'n anfon llythyr yn esbonio'r cynllun ar gyfer y dyfodol a/neu'n anfon apwyntiad cleifion allanol i chi.

Os ydych wedi cael meddyginiaeth dawelyddu, mae'n rhaid i chi ddilyn y cyfarwyddiadau hyn am 24 awr ar ôl eich triniaeth:

- Bydd angen i rywun aros gyda chi dros nos
- Peidiwch ag yfed alcohol nac ysmegu
- Peidiwch â gyrru unrhyw fath o gerbyd na gweithredu peiriannau
- Peidiwch ag arwyddo unrhyw ddogfennau cyfreithiol
- Peidiwch â chymryd unrhyw gyffuriau heblaw'r rhai a ragnodwyd ar eich cyfer
- Cofiwch gadw at unrhyw gyngor rhyddhau a gewch gan y staff nyrsio neu'r staff meddygol
- Gallwch fwyta ac yfed yn ôl yr arfer yn dilyn y driniaeth cyn belled â'ch bod yn gallu goddef hynny
- Dylech orffwyso dros nos ac os ydych yn teimlo'n ddigon da, dylech allu dychwelyd i'r gwaith y diwrnod canlynol ond ni ddylech yrru

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/  
This document is available in English**